CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y cyfarfod: **05/12/23**

Teitl: **Contract Bancio**

Pwrpas yr adroddiad: **Darparu diweddariad ar ganlyniad tendr Contract Bancio'r Cyngor**

Er: **Gwybodaeth**

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:
Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. Cefndir

Mae contract bancio'r Cyngor yn ymdrin ag ochr trafodaethol y gweithgaredd bancio. Mae'n cynnwys darparu cyfleusterau bancio (e.e. cyfrifon banc a bancio mewnol) er mwyn sicrhau bod trafodion gweithredol incwm a gwariant y Cyngor yn medru cael ei fancio a chyfrif amdano.

Mae'r modd y bydd y Cyngor yn ymdrin â buddsoddiad ehangach (gan gynnwys ystyriaethau eraill sy'n rhan o'r contract) wedi eu gosod yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol caiff ei ystyried gan y Cyngor llawn. Nid yw'r contract bancio yn cynnwys gwasanaethau Casglu Arian yn Ddiogel (e.e. arian parod / sieciau) ac nid yw ychwaith yn cynnwys gwasanaethau masnachwr ar gyfer dulliau talu ar-lein (e.e. cardiau debyd / credyd).

Bydd y contract bancio cyfredol yn dod i ben ar ddiwedd mis Chwefror 2024, felly dechreuwyd ar broses caffael ar gyfer cyfnod contract newydd.

2. Y Broses Caffael

Mi wnaeth y Cyngor hysbysebu'r cyfle i gyflwyno tendr yn agored drwy Sell2Wales, sef porth caffael Llywodraeth Cymru lle mae Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysebu cyfleoedd contract. Defnyddiwyd Etenderwales, sef system e-dendro a ddarperir am ddim gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r broses tendro.

Roedd y tendr ar agor am gyfnod o 1 mis o 04/09/23 i 04/10/23 a chynigiwyd contract newydd ar sail 7 mlynedd, gydag opsiwn o ymestyn am ddwy flynedd yn bellach. Mae elfen weithredol sylweddol mewn newid banciau, a dyna paham mae hyd y contract ar gyfartaledd y hirach na'r arfer. Arfarnwyd y tendr ar sail rhaniad 30% pris / 70% ansawdd. Bydd cyfanswm o 200 marc ar gael.

Defnyddiwyd 15 meini prawf ansawdd yn yr arfarniad tendr ac er bod y pwyslais yn bennaf ar ofynion gweithredol craidd (gan gynnwys materion allweddol megis

mesurau seiberddiogelwch a gwrth-twyll) a rhoddwyd rhywfaint o bwysau ar Fuddiannau Cymuned ac Amgylcheddol a materion Cymdeithasol a Llywodraethol.

Sgoriwyd y meini prawf ansawdd gan banel a oedd yn cynnwys 3 swyddog o'r gwasanaeth Cyllid a Chaffael, ac fe'u cynorthwyydd wrth arfarnu'r sgorio ar gwestiynau Buddiannau Cymunedol ac Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol gan swyddogion o wasanaethau eraill â'r profiad perthnasol. Cymedrolwyd cyfarfodydd y panel gan swyddog o'r Tîm Caffael.

3. Canlyniad

Bu i'r Cyngor dderbyn 2 ymateb ffurfiol i'r cyfle i dendro. Bu i'r ddau gyflenwr lwyddo yng ngham cyntaf y tendr, sef set o gwestiynau craidd sy'n sicrhau bod bidwyr yn cyflawni'r meini prawf hanfodol. Caiff y cwestiynau yma eu harfarnu ar sail pasio / methu. Yn dilyn hyn arfarnwyd yr hyn a gyflwynwyd yn yr amlen ansawdd, cyn symud ymlaen i agor y prisiau masnachol. Nodir isod crynodeb o'r canlyniadau. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 1:

	Cyflenwr A	**Cyflenwr B**
Sgôr Arfarnu Ansawdd (Sgôr allan o 140)	128.0	121.5
Sgôr Pris Masnachol (Sgôr allan o 60)	60.0	50.73
CYFANSWM Sgôr – Pwyntiau	**188.0**	**172.23**
CYFANSWM Sgôr - % canran	**94.0%**	**86.1%**
Sefyllfa	**1af**	**2ail**

I gasglu, - mae cyflenwr A wedi llwyddo i gyflawni'r sgôr arfarnu uchaf ac felly'r sawl sydd â'r bid llwyddiannus. Cyflenwr A yw Barclays Bank plc. Mae cyfanswm cost y contract oddeutu £106,007.92 dros y 7 mlynedd + 2 flynedd cyfnod ymestyn. Ar sail flynyddol mae hwn o fewn y Gyllideb sydd ar gael.

Yn unol â Rheolau Caffael Contract y Cyngor, gan taw dau ymateb yn unig a dderbyniwyd, ystyriwyd cais am Eithriad Contract a chymeradwywyd hyn gan y Grŵp Arweiniol ar 15/11/23.

Yn unol â Rheolau Caffael Contractau'r Cyngor, gan fod amcangyfrif cyfanswm gwerth y contract (gan gynnwys unrhyw estyniad dewisol) o fewn ystod £100k i £249k, mae'r awdurdod i lofnodi'r gwaith o dderbyn y tendr ar ysgwyddau 'Swyddog a ddynodwyd gan y Gwasanaeth priodol AC un o'r canlynol – Prif weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol'.

Bu i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a'r Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd gymeradwyo a llofnodi'r papurau derbyn tendr ar 15/11/23. Cyhoeddwyd Hysbysiad o Fwriad i Dderbyn Contract ar 16/11/23, yn dilyn y cyfnod digyfnewid arferol o 10 diwrnod sy'n dod i ben canol nos ar 27/11/23. Bydd y cyfnod contract newydd yn dechrau ar 29/02/24.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad:
Nodi diweddariad a ddarparwyd ar gontract Bancio'r Cyngor.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Amherthnasol

Trosolwg a Chraffu:
Bu i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol dderbyn diweddariad ar y mater hwn (19/09/23)

Fframwaith Polisi:
Amherthnasol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Pob un

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Nodwyd o fewn yr adroddiad.

Goblygiadau cyfreithiol:
Amherthnasol

Goblygiadau staffio:
Amherthnasol

Goblygiadau eiddo / asedau:
Amherthnasol

Risg(iau):
Bydd angen i'r Cyngor gael cyflenwr bancio er mwyn iddo fedru ymgymryd â'i swyddogaethau o ddydd i ddydd.

Papurau Cefndir:
Dim

Atodiadau:
Atodiad 1: Arfarniad Tendr

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:
Duncan Hall a Justin Davies

Dyddiad:
16/11/23

ATODIAD 1 – Arfarnu Tendr

1. Sgôr Arfarnu Ansawdd (Sgôr allan o 140)

Meini Prawf Ansawdd	Uchafswm sgôr	Sgôr Cyflenwr A	Sgôr Cyflenwr B
Q1 Bancio ar y We– Parhad Gwasanaeth / Gweinyddiaeth y System	**15**	15	12
Q2 Bancio ar y We – Mynediad Data Bancio	**10**	10	10
Q3 Desg gymorth / Rheoli Cleient	**10**	10	8
Q4 Canolfan Swmpbrosesu Adneuon	**15**	12	12
Q5 Adneuon mewn Canghennau Banc o Sefydliadau'r Cyngor	**10**	10	6
Q6. Strwythur y Cyfrif, Cronni Balansau, Rheoli Arian Parod a Threfniadau Llog Credyd.	**10**	10	10
Q7 Strwythur y Cyfrif, Cronni Balansau, Rheoli Arian Parod a Threfniadau Llog Credyd	**5**	4.5	4.5
Q8 Deunydd papur	**5**	5	5
Q9 Mesurau Atal Seiberdroseddau	**15**	15	15
Q10 Mesurau Atal Twyll Sieciau	**5**	4	4.5
Q11 Dyddiadau Gwerth / Amserlenni Setliadau	**5**	5	5
Q12 Blaengaredd	**5**	4	5
Q13 Ni ddefnyddiwyd	**-**	-	-
Q14 Budd Cymunedol	**5**	4.5	4.5
Q15 Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol	**15**	9	12
Q16 Trosglwyddo Contract / Cynllun Gweithredu	**10**	10	8
CYFANSWM	**140**	**128.0**	**121.50**

2. Sgôr Pris Masnachol (Sgôr allan o 60)

Sgoriwyd y Pris Masnachol drwy ddefnyddio'r fformiwla canlynol:

Pris Tendr Isaf / Pris Cyflenwr X 60 marc

Meini Prawf	Uchafswm sgôr	Sgôr Cyflenwr A	Sgôr Cyflenwr B
Pris	**60**	60	50.73
CYFANSWM	**60**	**60**	**50.73**